

Patrwm cyflwyno O fis Hydref i fis Mehefin

Disgrifiad o'r modiwl

Mae'r modiwl hwn yn canolbwyntio ar ddeall chwarae a chreadigrwydd yn ystod plentyndod cynnar o safbwyntiau proffesiynol a phersonol gwahanol ac amrywiol. Mae'n ystyried sut mae plant ac oedolion eraill yn cael effaith ar y penderfyniadau chwarae a'r dewisiadau creadigol y mae plant yn eu gwneud. Byddwch yn dysgu am y ffordd y mae plant yn mynegi eu syniadau a'u diddordebau drwy chwarae ac yn ystyried sut mae plant yn cymryd rhan mewn chwarae a phrofiadau creadigol ac yn cael eu cynnwys ynddynt. Byddwch yn archwilio sut y mae plant yn mynegi eu hoffterau drwy eu dewisiadau chwarae a phwysigrwydd ardaloedd creadigol wrth ddilyn eu diddordebau.

Manyleb y person

Dylid darllen manyleb y person ar gyfer y modiwl hwn yn unol â'r [fanyleb gyffredinol](#) ar gyfer darlithydd cyswllt yn Y Brifysgol Agored.

Yn ogystal â bodloni'r holl ofynion a nodir ym manyleb gyffredinol y person, dylech feddu ar y canlynol:

- gradd neu gymhwyster cyfatebol mewn maes pwnc priodol, er enghraifft addysg a gofal y blynyddoedd cynnar; astudiaethau plentyndod cynnar; gwaith chwarae; seicoleg ddatblygiadol; datblygiad plentyn neu Statws Athro Cymwysedig neu gymhwyster cyfatebol yn y blynyddoedd cynnar.
- profiad o weithio mewn un cyd-destun plentyndod cynnar neu fwy
- gwybodaeth am theori, addysg ac ymarfer ym maes plentyndod cynnar, a dealltwriaeth ohonynt. Dylai gwybodaeth ddamcaniaethol gynnwys dealltwriaeth o'r safbwynt diwylliannol-gymdeithasol ar blentyndod cynnar a dysgu
- gwybodaeth a dealltwriaeth o'r dadleuon a'r cymhlethdodau ynghylch chwarae a chreadigrwydd plant
- profiad o weithio gyda myfyrwyr sy'n oedolion a chefnogi myfyrwyr o amrywiaeth eang o gefndiroedd nad ydynt, o bosibl, wedi astudio ar y lefel hon o'r blaen
- profiad o gefnogi sgiliau llythrennedd ac astudio academaidd myfyrwyr
- profiad o asesu a rhoi adborth ysgrifenedig effeithiol ar aseiniadau a gynhyrchir gan ddysgwyr sy'n oedolion
- profiad o gefnogi ac addysgu myfyrwyr sy'n gweithio mewn amgylchedd ar-lein, gan gynnwys helpu i ddatblygu sgiliau ar gyfer astudio'n effeithiol ar-lein

Byddai'n fanteisiol pe byddech yn meddu ar y canlynol:

- gallu amlwg i gynorthwyo myfyrwyr mewn tiwtorialau ar-lein
- profiad o weithio mewn tîm a chydweithio ag eraill er mwyn darparu hyfforddiant

Gwybodaeth ychwanegol

- Rhaid i ddarlithwyr cyswllt E110 fod ar gael i gymedroli eu fforwm grŵp tiwtor ar-lein drwy gydol y modiwl.
- Fel rhan o'u hymrwymiad i ddatblygiad personol staff, byddai disgwyl i Ddarlithwyr Cyswllt E110 gwblhau hyfforddiant penodol ar ddefnyddio amgylcheddau addysgu ar-lein cydamserol (Adobe Connect) ac anghydamserol (fforymau) Y Brifysgol Agored.
- Bydd addysgu ar y modiwl hwn yn cynnwys gweithio fel rhan o dîm o Ddarlithwyr Cyswllt mewn grŵp clwstr. Byddwch yn gweithio fel rhan o dîm cydweithredol, gan rannu tasgau hyfforddi ar gyfer tiwtorialau wyneb yn wyneb a thiwtorialau ar-lein. *Bydd tiwtorial ar-lein cyfatebol ar gyfer pob tiwtorial wyneb yn wyneb, a fydd yn ymdrin â chynnwys tebyg i'r hyn a gyflwynir yn y tiwtorialau wyneb yn wyneb.*

Manylion y modiwl – mae eglurhad llawn ar y wefan

Credydau a ddyfernir i'r myfyriwr am gwblhau modiwl yn llwyddiannus:	60
Nifer yr aseiniadau a gyflwynir gan y myfyriwr:	5
Dull cyflwyno aseiniadau:	2
Lefel y gofynion TGCh:	2
Nifer y myfyrwyr sy'n debygol o fod mewn grŵp safonol:	20
Band cyflog:	8
Nifer amcangyfrifedig yr oriau fesul wythnos addysgu:	7